# Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

## (SLC(3)-02-08)

### SLC93

### Adroddiad y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

### Teitl: Rheoliadau Sŵn Amgylcheddol (Nodi Ffynonellau Sŵn) (Cymru) 2007

- nodi'r ffynonellau sŵn y mae'n rhaid eu mapio yn unol â pharagraff cyntaf Erthygl 7 o Gyfarwyddeb y Comisiwn 2002/48 ynghylch asesu a thrafod sŵn amgylcheddol. Y ffynonellau sŵn penodol a nodwyd yw'r rhai hynny a nodwyd i ddiben rheoliad 3(1) Rheoliadau Sŵn Amgylcheddol (Cymru) 2006 sef crynodrefi cylch cyntaf (poblogaeth o fwy na 250,000 person a dwysedd poblogaeth sy'n cyfateb i 300 o bobl i bob cilomedr sgwâr neu fwy na hynny), prif ffyrdd cylch cyntaf, cefnffyrdd, traffyrdd nad ydynt yn gefnffyrdd, prif ffyrdd neu ffyrdd dosbarthiadol gyda mwy na chwe miliwn o gerbydau yn teithio arnynt bob blwyddyn neu sy'n rhanbarthol, yn genedlaethol neu'n rhyngwladol) a phrif reilffyrdd cylch cyntaf sydd â mwy na 60,000 o drenau yn teithio arnynt bob blwyddyn).

**Gweithdrefn: Negyddol**

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 15.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Fodd bynnag, gofynnir i'r Pwyllgor ystyried a yw'n dymuno gwahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r offeryn hwn o dan Reol Sefydlog 15.3(v) (nad yw'n gwireddu ei amcanion polisi yn berffaith) am y rhesymau a nodir isod.

Mae'n rhan o bolisi'r Gymuned i gael lefel uchel o ddiogelwch i'r amgylchedd ac iechyd ac un o'r amcanion sydd i'w dilyn yw amddiffyn rhag sŵn. Mae Cyfarwyddeb 2002/49 ("y Gyfarwyddeb") yn rhoi sail i ddatblygu a chwblhau mesurau Cymunedol yn ymwneud â sŵn o brif ffynonellau yn cynnwys cerbydau ffordd a rheilffordd a seilwaith yn y tymor byr, canolig a hirdymor gan gynnwys mapio sŵn strategol a chymharu data er mwyn cynhyrchu cynlluniau gweithredu ar gyfer rhaglen lliniaru a rheoli.

Mae gan Weinidogion Cymru'r pŵer i wneud yr offeryn hwn trwy gael eu dynodi o dan adran 2(2) Deddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 mewn perthynas â mesurau'n ymwneud ag asesu, trin a rheoli sŵn amgylcheddol. Diben yr offeryn yw nodi crynodrefi cylch cyntaf, prif gefnffyrdd cylch cyntaf a rheilffyrdd cylch cyntaf i'r diben o Erthygl 7 Cyfarwyddeb y Comisiwn 2002/2629 yn unol â'r amserlen a nodwyd yn yr Erthygl honno ac yn rheoliad 3(1) Rheoliadau Sŵn Amgylcheddol (Cymru) 2006 ("Rheoliadau 2006"). Dylai Cyfarwyddeb 2002/49 fod wedi cael ei throsi i gyfraith ddomestig erbyn 18 Gorffennaf 2004. Fodd bynnag, methwyd y dyddiad cau ar gyfer trosi oherwydd, fel y deellir, y nifer fawr o faterion technegol cymhleth a oedd yn codi drwy drafodaethau polisi ar weithredu gydag Adrannau eraill y DU.

Ni wnaed Rheoliadau 2006 tan 3 Hydref 2006, gyda'r oedi o ran trosi'r Gyfarwyddeb yn adlewyrchu'r oedi o ran trosi ym mhob gweinyddiaeth ddatganoledig nes y byddai trosi yn Lloegr.

Mae Erthygl 7 y Gyfarwyddeb yn ei gwneud yn ofynnol i fapio cylch cyntaf fod wedi ei gwblhau erbyn 30 Mehefin 2007. O ganlyniad, roedd yr oedi o ran trosi yn golygu nad oedd yr amserlen a nodwyd yn Rheoliadau 2006 yn cydymffurfio â gofynion y Gyfarwyddeb. Er nad oedd yn ofyniad o dan y Gyfarwyddeb, roedd Rheoliadau 2006 yn ei gwneud yn ofynnol i grynodrefi cylch cyntaf, prif gefnffyrdd cylch cyntaf a rheilffyrdd cylch cyntaf fod wedi eu nodi erbyn 31 Rhagfyr 2006.

Anfonwyd drafft o'r adroddiad hwn at Weinidogion Cymru; nodir yr ymateb a anfonwyd ar eu rhan isod:

Cafodd Cyfarwyddeb Sŵn Amgylcheddol 2002/49 (y Gyfarwyddeb) ei mabwysiadu gan y Comisiwn Ewropeaidd ym mis Mehefin 2002, a phennwyd bod yn rhaid ei throsi'n gyfraith yn yr Aelod-wladwriaethau erbyn 18 Gorffennaf 2004. Daeth Rheoliadau Sŵn Amgylcheddol (Cymru) 2006, a oedd yn trosi'r Gyfarwyddeb, i rym ar 4 Hydref 2006. Gohiriwyd trosi'r Gyfarwyddeb ym mhob un o'r gweinyddiaethau datganoledig nes iddi gael ei throsi yn Lloegr, a gwnaed hynny ar 1 Hydref 2006. Daeth Rheoliadau Sŵn Amgylcheddol (Cymru) 2006, a oedd yn trosi'r Gyfarwyddeb yng Nghymru, i rym ar 4 Hydref 2006. DEFRA yw'r Adran yn y Llywodraeth sy'n gyfrifol am arwain ar y mater hwn ac am gynnal trafodaethau am y Gyfarwyddeb ar lefel yr aelod-wladwriaeth gyda'r Comisiwn Ewropeaidd ar ran Llywodraeth y DU a'r Gweinyddiaethau Datganoledig. Methwyd â throsi'r Gyfarwyddeb erbyn y dyddiad a bennwyd am fod nifer fawr o faterion technegol cymhleth wedi codi yn ystod trafodaethau polisi ar weithredu'r Gyfarwyddeb a gynhaliwyd gydag adrannau eraill y Llywodraeth, yn bennaf adrannau Whitehall; Adran yr Amgylchedd, bwyd a Materion Gwledig (DEFRA) a'r Adran Drafnidiaeth (DFT).

Yn adran 3 o Reoliadau Sŵn Amgylcheddol (Cymru) 2006, pennwyd gofyniad domestig i nodi ffynonellau sŵn erbyn 31 Rhagfyr 2006, ac roedd y gofyniad hwn yn adlewyrchu'r trefniadau yn Lloegr. Nid yw nodi ffynonellau sŵn drwy reoliadau yn un o ofynion y Gyfarwyddeb, ond roedd yn benderfyniad polisi domestig a wnaed er mwyn rhoi statws mwy ffurfiol i'r broses nodi.

Yn unol ag erthygl 7 o'r Gyfarwyddeb, mae'n ofynnol i'r aelod-wladwriaethau sicrhau bod mapiau sŵn strategol yn cael eu paratoi erbyn 30 Mehefin 2007 a bod y Comisiwn yn cael eu gweld ymhen chwe mis, h.y. erbyn 31 Rhagfyr 2007. Fodd bynnag, mae anawsterau technegol sy'n gysylltiedig â dehongli'r system casglu data yr oedd ei hangen er mwyn gweithredu'r Gyfarwyddeb wedi arwain at oedi cyn cwblhau mapiau sŵn strategol y DU. Roedd paratoi'r Mapiau Sŵn Strategol yn broses gymhleth a thechnegol iawn, ac nid oedd canllawiau'r Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer yr aelod-wladwriaethau ar arferion da wrth baratoi mapiau sŵn yn barod tan 13 Awst 2007.

Gofyniad domestig oedd y gofyniad i wneud y rheoliadau nodi, ac er bod angen eu gwneud er mwyn mabwysiadu'r mapiau sŵn

strategol yn derfynol, nid oeddent yn angenrheidiol er mwyn dechrau ar y mapiau hynny na pharatoi’r drafftiau terfynol. Er mwyn osgoi camau gan y Comisiwn am na lwyddwyd i drosi’r Gyfarwyddeb yn unol â’r terfynau amser a bennwyd, defnyddiwyd adnoddau Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddatblygu’r fethodoleg fapio, i ddilysu’r data a oedd ar gael ac i baratoi’r mapiau er mwyn gweithredu ar rwymedigaeth Llywodraeth y DU i adrodd i’r Comisiwn erbyn 31 Rhagfyr 2007.

Cafodd y mapiau ar gyfer Cymru eu cwblhau ar 13 Rhagfyr 2007, a chafodd y Comisiwn weld y drafftiau terfynol ar 19 Rhagfyr 2007 nes i’r Rheoliadau Sŵn Amgylcheddol (Nodi Ffynonellau Sŵn) (Cymru) ddod i rym ar 9 Ionawr 2008, pan gafodd y fersiynau terfynol eu cyflwyno’n ffurfiol.

### Cynghorwyr Cyfreithiol

Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

### Ionawr 2008